# Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i **Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)** ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Cafodd y Bil ei gyflwyno gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar **26 Tachwedd 2012,** ac yna cafodd ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** ("y pwyllgor") i graffu arno yng Nghyfnod 1. Ar ôl newid ym mhortffolios y Gweinidogion ym **mis Mawrth 2013**, daeth Lesley Griffiths AC yn Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ac felly trosglwyddwyd cyfrifoldeb yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil iddi hi, a hynny ers 18 Mawrth 2013.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis **Mawrth 2013**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad** am ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil yn yr un mis. Cafodd y Bil ei gymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 ar ôl dadl ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar **16 Ebrill 2012**.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 2 ar 17 Ebrill. Cafodd 75 o welliannau eu cyflwyno, 51 ohonynt gan Lywodraeth Cymru. Ystyriodd y pwyllgor y gwelliannau a'u gwaredu yn ei gyfarfod ar **9 Mai 2013**.

Mae gwybodaeth bellach am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o'r Bil**, wedi'i baratoi gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Y gwelliannau a gytunwyd yng Nghyfnod 2

Cafodd pob un o welliannau'r Llywodraeth eu cytuno ac eithrio dau, sef gwelliant 48 a oedd yn ymwneud â chyhoeddi cofrestrau budiannau aelodau rhai cyrff cyhoeddus yn electronig, a gwelliant 66 a oedd yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell. Ni chawsant eu cytuno oherwydd y gofyniad yn **Rheol Sefydlog** Rhif 17.37 i bleidlais fwrw'r Cadeirydd fod yn negyddol. Ni chafodd yr un o'r 26 o welliannau'r gwrthbleidiau eu derbyn: ni chytunwyd ar 17 ohonynt, ni chynigiwyd saith ohonynt, a methodd dau arall.

Dyma grynhoi'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r Bil:

### Hyrwyddo a gwrthwynebu Biliau preifat

- Roedd **gwelliannau 60 a 64** yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol hyrwyddo neu wrthwynebu Biliau preifat yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal ag yn San Steffan, fel ar hyn o bryd.

### Mynychu cyfarfodydd cyngor o bell

- Dileodd **gwelliant 73 y** gwaharddiad yn narpariaethau presennol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel nad oedd aelodau cyfetholedig yn cael mynychu cyfarfodydd o bell. Bellach, bydd ganddynt fwy o hyblygrwydd i wneud hynny.

### Pwyllgorau safonau ymddygiad

- Roedd **gwelliant 68** yn darparu bod awdurdod yn cael cyfeirio mater o ran ymddygiad aelod, megis honiadau ynghylch torri'r cod ymddygiad, i bwyllgor safonau mewn awdurdod gwahanol. Roedd hyn yn sgîl argymelliad 19 y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1.

### Adolygu cymunedau a threfniadau etholiadol

- Roedd **gwelliant 23** yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau roi sylw i amserlen Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol  Cymru ('y comisiwn') ar gyfer adolygu trefniadau etholiadol prif ardaloedd, fel bod modd cynnal adolygiadau o ardaloedd cymuned cyn cychwyn ar yr adolygiadau etholiadol.

- Roedd darpariaeth yng **ngwelliant 24** i ddod â dau gylch yr adolygiadau ardaloedd cymuned ac adolygiadau trefniadau etholiadol ynghyd, fel bod cymunedau a threfniadau etholiadol pob prif ardal yn cael eu hadolygu bob 10 mlynedd.
- Roedd **gwelliant 50** yn ei gwneud yn ddyletswydd ar brif gynghorau i ddarparu gwybodaeth i'r comisiwn y gallai'n rhesymol ofyn amdani er mwyn ei gynorthwyo wrth gynnal adolygiad etholiadol.
- Cyflwynwyd **gwelliannau 51, 52 a 53** mewn ymateb i argymhelliad 2 y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1, a oedd yn nodi nad oedd y Bil yn caniatáu i neb heblaw Gweinidogion Cymru wneud Gorchymyn yn newid wardiau etholiadol prif ardal yn dilyn adolygiad o'i ffiniau cymunedol. Cytunwyd y gwelliannau, sy'n golygu y caiff prif gyngor neu'r comisiwn gyflwyno cynigion o ran wardiau etholaethol prif ardal yn dilyn adolygiad o'r fath.
- Roedd **gwelliannau 26 i 33** yn ymwneud ag adolygu trefniadau etholiadol prif ardaloedd, ac yn ymgorffori argymhellion 5 a 6 o adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor. Roeddent yn diwygio adran 29 fel bod y comisiwn yn gallu cychwyn ar ei waith cyn gynted ag y byddai'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol (yn hytrach na gorfod aros chwe mis).

## Gweithredu yn dilyn adolygiad

- Cafodd **gwelliannau 54 i 58** eu cyflwyno yn sgîl argymhellion 2 a 3 y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1, yn caniatáu i brif gynghorau neu'r comisiwn weithredu newidiadau i wardiau etholaethol prif ardaloedd o ganlyniad i adolygiad o ffiniau cymuned.
- Aeth **gwelliant 39** i'r afael â mater a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad am y Bil. Mae'r gwelliant yn gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw Orchymyn a wneir o dan adrannau 37, 38 neu 39 o'r Bil sy'n dirymu neu'n amrywio Gorchymyn blaenorol gael ei wneud gan yr un corff a wnaeth y Gorchymyn gwreiddiol, ar wahân i Orchymyn a wnaed gan gyngor nad yw'n bodoli mwyach, pan fydd hawl gan y corff sy'n ei olynu ei ddirymu neu ei amrywio.

## Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau llywodraeth leol

- Roedd **gwelliannau 34, 36 a 37** yn ei gwneud yn ofynnol i'r comisiwn fod yn un o'r ymgyngoreion gorfodol mewn perthynas ag adolygiadau a gynhelir gan brif gynghorau.
- Roedd **gwelliant 35** yn rhoi'r pŵer i'r comisiwn gymryd awenau unrhyw adolygiad o ffiniau cymuned os oedd yn gwrthod cynigion y prif gyngor, a byddai'r comisiwn yn cyflwyno'r cynigion diwygiedig i Weinidogion Cymru. Mewn achosion o'r fath, ni fyddai'n ofynnol i'r comisiwn gynnal ymghynghoriad o'r newydd, a byddai'n rhaid iddo o hyd gyhoeddi a chylchredeg ei adroddiad, gyda chyfnod o chwe wythnos cyn y caniateir gwneud Gorchymyn.

## Newidiadau arfaethedig i ffiniau ardal heddlu

- Roedd **gwelliant 59** yn adfer y cyfnod o chwe wythnos o leiaf rhwng cyflwyno'r cynigion terfynol a gwneud Gorchymyn yn dilyn adolygiad o ardal heddlu. Dim ond yr Ysgrifennydd Cartref sy'n cael newid yr ardaloedd hynny. Mae hyn yn adfer y ddarpariaeth bresennol sydd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.

## Gwelliannau technegol a chychwyn

- Roedd **gwelliannau 40 a 42 i 45** yn rhai technegol eu natur i ddiweddaru croesgyfeiriadau a diffiniadau yn y Bil, a dileu testun nad oedd ei angen mwyach.
- Cyflwynwyd **gwelliant 41** i fynd i'r afael â mater a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad am y Bil, sef yr angen i egluro y byddai unrhyw Orchymyn gan yr Ysgrifennydd Cartref i  newid ardal heddlu yn ddarostyngedig i weithdrefnau Senedd San Steffan yn hytrach na gweithdrefn yn y Cynulliad.
- Roedd **gwelliannau 69 i 71** yn newid y darpariaethau cychwyn ar gyfer sawl rhan o'r Bil, i ganiatáu digon o amser i gynghorau cymuned baratoi am y Bil a darparu gwybodaeth yn electronig ar eu gwefannau. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r gwelliannau hefyd yn caniatáu amser i ystyried pa ddarpariaethau sydd mewn is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, a hynny cyn gweithredu'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyhoeddi cofrestrau, sefydlu cyd-bwyllgorau safonau a chyfeirio materion o un pwyllgor pwnc i un arall.

## Ymrwymiad y Gweinidog

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymodd y Gweinidog i ystyried  a thrafod rhai materion penodol cyn y ddadl yng Nghyfnod 3. Dyma'r manylion perthnasol:

### Terminoleg

- Cyflwynodd Rhodri Glyn Thomas AC welliannau 10, 11 a 12 gydag enw Peter Black AC yn eu cefnogi i roi'r gair "adran" yn lle "ardal" ym mhob un o'r diffiniadau a geir yn adran 29(10): "ardal amlaelod", "ardal etholiadol", ac "ardal un aelod". Gofynnodd y Gweinidog i'r Aelod beidio â chynnig y gwelliannau, gan ddweud ei bod yn fwriad ganddi gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3 i ddisodli'r geiriau "ardal etholiadol" yn y Bil drwyddo draw (yn hytrach nag yn adran 29 yn unig) gan roi'r geiriau "ward etholiadol" yn eu lle, gan fod y rheini'n haws eu deall ac yn fwy arferol.

## Y camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil** gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth. Dechreuodd Cyfnod 3 ar 10 Mai 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Mae modd i Aelodau gyflwyno gwelliannau pellach drwy'r Swyddfa Ddeddfwriaeth tan 6pm ar ddydd Mawrth, 11 Mehefin 2013 (**legislationoffice@cymru.gov.uk**). Cynhelir y trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Mehefin 2013.

## Gwybodaeth bellach

I gael mwy o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r Clerc Deddfwriaeth, Bethan Davies (**bethan.davies@cymru.gov.uk**).